## Yr amser sydd ei angen

| Amser sydd ei angen ar gyfer sesiwn | Lleoliad | Cyd-destun |
|---|---|---|
| Gweithgaredd Ailgylchu - 35 munud<br><br>Gweithgaredd Lleihau Gwastraff Bwyd - 25 munud | Ystafell ddosbarth a thir yr ysgol | Mae'r wers hon yn trafod Ailgylchu a Lleihau Gwastraff Bwyd<br>**Ailgylchu** - Beth yw ailgylchu? / Pam fod angen ailgylchu? / Beth ellir ei ailgylchu? / Sut i ailgylchu<br>**Gwastraff Bwyd** - Sut mae achub bwyd rhag mynd i'r bin yn helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd, sut i leihau gwastraff bwyd, a sut mae ailgylchu bwyd na ellir ei fwyta yn creu ynni adnewyddadwy. Ynni o'r dasg ar wastraff bwyd - Gweithgaredd mathemateg yn gofyn i'r disgyblion gyfrifo faint o eitemau bwyd na ellir eu bwyta sydd eu hangen i bweru dyfeisiau trydanol |

## Cynllun Gwers

**Sylwch - os ydych chi'n teimlo eich bod eisoes wedi trafod y cynnwys ailgychu, canolbwyntiwch ar yr Adnodd Lleihau Gwastraff Bwyd**

### Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn i athrawon yn cynnwys gwybodaeth gefndirol i'ch helpu i ddarparu'r Wers Ailgylchu i'ch dosbarth. Mae'r wers hon yn addas ar gyfer disgyblion oedran cynradd rhwng 7 ac 11 oed. Lluniwyd y wers i bara oddeutu 45 munud.

Nod y wers yw addysgu disgyblion am ailgylchu. Bwriedir i'r wers gefnogi strategaeth 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' Cymru ac addysgu disgyblion am y rhesymau dros ailgylchu, y gwastraff y gellir eu hailgylchu a'r siwrnai ailgylchu.

Gwers Ailgylchu

Mae agweddau'r wers hon yn cynnwys:

- Beth yw ailgylchu?
- Pam fod angen ailgylchu?
- Beth allwch chi ei ailgylchu?
- Sut i ailgylchu
- Y siwrnai ailgylchu

Mae'r gweithgareddau o fewn y wers ar y cyfan yn hunanesboniadol.

### Beth yw Ailgylchu?

Mae ailgylchu eitem yn golygu ei defnyddio i greu rhywbeth newydd.

Mae'n bosibl y bydd disgyblion yn defnyddio geiriau fel cylchu, lleihau, ailddefnyddio neu

gompostio yn eu diffiniad. Mae'n bosibl y byddant yn: cyflwyno cysyniadau megis atal sbwriel (neu leihau gwastraff); trafod y buddion amgylcheddol (e.e. arbed ynni) neu'n nodi eitemau y gellir eu hailgylchu (gwydr, papur, caniau, ac ati).

**Pam fod angen ailgylchu?**

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth gefndirol am y rhesymau dros ailgylchu. Mae'n bosibl y bydd disgyblion hŷn neu fwy abl yn dymuno trafod y rhain mewn rhagor o fanylder.

**Mae ailgylchu'n gwarchod adnoddau**

Pan fyddwn yn ailgylchu, caiff deunyddiau a ddefnyddiwyd eu trosi'n gynnyrch newydd, gan leihau'r angen i ddefnyddio adnoddau naturiol. Os na chaiff deunyddiau a ddefnyddir eu hailgylchu, caiff cynnyrch newydd eu creu gan echdynnu deunyddiau ffres, crai o'r Ddaear, drwy fwyngloddio a thorri coed.

Mae ailgylchu'n helpu i warchod deunyddiau crai pwysig ac yn diogelu cynefinoedd naturiol i'r dyfodol.

**Mae ailgylchu'n arbed ynni**

Mae defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu yn y broses weithgynhyrchu'n defnyddio llawer llai o ynni na'r broses o greu cynnyrch newydd o ddeunyddiau crai - hyd yn oed wrth gymharu'r holl gostau cysylltiedig, megis cludiant.

Ceir arbedion ynni ychwanegol hefyd gan fod angen rhagor o ynni i echdynnu, mireinio, cludo a phrosesu deunyddiau crai i'w paratoi ar gyfer diwydiant o'i gymharu â darparu deunyddiau sydd eisoes yn barod ar gyfer diwydiant.

**Mae ailgylchu'n helpu i ddiogelu'r amgylchedd**

Mae ailgylchu'n lleihau'r angen ar gyfer echdynnu (mwyngloddio, chwarela a thorri coed), mireinio a phrosesu deunyddiau crai sydd i gyd yn llygru aer a dŵr yn sylweddol.

Gan fod ailgylchu'n arbed ynni, mae hefyd yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, sy'n helpu i fynd i'r afael â'r newid hinsawdd.

**Mae ailgylchu'n lleihau tirlenwi a llosgi**

Pan rydym yn ailgylchu, caiff deunyddiau y gellir eu hailgylchu eu hailbrosesu'n gynnyrch newydd, ac o ganlyniad, mae'n lleihau cyfanswm y sbwriel a gaiff eu hanfon i safleoedd tirlenwi neu i gael eu llosgi.

**Beth ellir ei ailgylchu?**

Mae modd ailgylchu'r holl eitemau yn y lluniau ar sleidiau 4 a 5 drwy gasgliadau ymyl palmant Sir y Fflint ar hyn o bryd. Cyn y wers, awgrymir i chi ofyn i ddisgyblion ddarganfod drostyn nhw eu hunain beth ellir ei ailgylchu gartref drwy ofyn i'w rhieni/gofalwyr.

Lle bo modd, bydd yn ddefnyddiol cael ambell i eitem y gellir ei ailgylchu i'w rhannu o amgylch y dosbarth e.e. potel blastig, bocs cardfwrdd ac ati.

**Gêm: Beth ellir ei ailgylchu?**

Rhannwch y dosbarth i ddau grŵp ar gyfer y gêm hon. Ar gyfer bob ystafell, bydd y grwpiau'n nodi gymaint o eitemau â phosibl yn ogystal â'r deunydd a ddefnyddiwyd i'w creu e.e. potel Siampŵ, plastig. Defnyddiwch amserydd i roi munud i'r grwpiau ym mhob ystafell. Rhowch un pwynt ar gyfer bob ystafell i'r grŵp sydd â'r mwyaf o'r atebion cywir. Pe bai'n gyfartal, rhowch un pwynt i bob grŵp. Y grŵp sydd â'r nifer uchaf o bwyntiau ar y diwedd sy'n ennill.

Mae'r gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar eitemau y gellir eu hailgylchu, ond mae'n bosibl y bydd athrawon yn dymuno trafod eitemau na ellir eu hailgylchu gyda disgyblion hŷn, mwy abl.

(Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am eitemau na ellir eu hailgylchu yn Sir y Fflint ar ein gwefan [https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Bins-Recycling-and-Waste/What-can-and-cannot-be-recycled.aspx](https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Bins-Recycling-and-Waste/What-can-and-cannot-be-recycled.aspx) )

**Ailgylchu yn yr Ystafell Ymolchi**

Mae llawer o eitemau y gellir eu hailgylchu yn yr ystafell ymolchi ac mae hyn yn gallu gwneud gwahaniaeth enfawr. Er enghraifft, pe bai pawb yn y DU yn ailgylchu un bocs past dannedd, gallai arbed digon o arian i redeg oergell mewn 2,000 o gartrefi am flwyddyn. Dyma restr ddefnyddiol

i'ch atgoffa:

✓ Bocsys past dannedd

✓ Tiwbiau papur toiled

✓ Poteli siampŵ a chyflyrydd plastig

✓ Cynwysyddion sebon cawod

✓ Poteli sebon hylif

✓ Poteli hylif glanhau ystafell ymolchi

**Ailgylchu yn yr Ystafell Fyw**

A wyddoch chi mai dim ond saith niwrnod mae'n ei gymryd i bapur newydd gael ei ailgylchu a'i ailddefnyddio eto? Gallech fod yn darllen eich hoff gomic ar bapur sydd wedi cael ei ailgylchu mewn dim! Yn yr ystafell hon, byddwch yn aml yn dod o hyd i'r eitemau canlynol y gellir eu hailgylchu:

✓ Amlenni

✓ Papurau newydd

✓ Pecynnau cardfwrdd gan siopau ar-lein

✓ Caniau

✓ Poteli plastig

✓ Poteli gwydr

✓ Cardiau cyfarch

✓ Papur

✓ Cwpanau plastig

**Ailgylchu yn yr Ystafell Wely**

Bocsys hancesi papur

Hen gylchgronau

Erosolau diarogli a chwistrellau gwallt gwag

Hen ddillad - yn ddibynnol ar ardal gyngor yr ysgol

**Ailgylchu yn y Gegin**

Ynghyd â'r poteli diod arferol yn y gegin, cofiwch wirio'r cardfwrdd o dan y sinc! Mae'r eitemau a gaiff eu hanghofio'n aml yn cynnwys:

✓ Poteli hylif glanhau

✓ Poteli glanhau arwynebau - cofiwch dynnu'r chwistrell!

✓ Poteli hylif glanhau a chyflyru

✓ Erosolau, tuniau sglein dodrefn, a ffresnydd aer - yn ddibynnol ar ardal gyngor yr ysgol

✓ Bocsys tabledi peiriant golchi dillad a thiwbiau/deunydd pecynnu

✓ Bocsys grawnfwyd

✓ Poteli saws plastig e.e. sôs coch

✓ Cartonau wyau cardfwrdd

✓ Potiau iogwrt plastig - yn ddibynnol ar ardal gyngor yr ysgol

✓ Poteli diodydd plastig

✓ Tuniau bwyd e.e. ffa pob

✓ Poteli gwydr a jariau

✓ Caniau diodydd

**Y siwrnai ailgylchu**

Mae'r adran hon yn trafod y siwrnai ailgylchu ar gyfer tuniau a chaniau. Bydd disgyblion yn gwylio fideo ac yna'n ateb y cwestiwn fel dosbarth. Gellir gwylio'r fideo drwy glicio ar y llun fideo yn y sleid drwy ddefnyddio'r dull 'Slide Show' ar PowerPoint; fel arall, gellir dod o hyd i ddolen y wefan o dan y fideo.

**Caniau alwminiwm**

Caiff caniau alwminiwm eu torri'n fân, gan waredu unrhyw haenau lliw. Cânt eu toddi mewn ffwrnais fawr, a thywalltir y metel i gastiau ingot i'w gosod. Gellir creu 1.5 miliwn o ganiau allan o bob ingot.

Mae ffoil alwminiwm yn wahanol ac fel arfer yn cael ei ailgylchu ar wahân gyda gweddillion alwminiwm eraill i greu eitemau eraill megis cydrannau injan.

**Caniau dur**

Rhoir caniau dur yn y ffwrnais gan ychwanegu haearn tawdd. Caiff ocsigen ei chwythu i mewn i'r ffwrnais sy'n cynhesu i tua 1700°C. Tywalltir y metel hylif i greu mowld er mwyn ffurfio slabiau mawr a gaiff eu rholio'n goiliau. Defnyddir y coiliau hyn i greu pob math o gynnyrch dur.

Caiff caniau dur eu prosesu gyda gwastraff dur eraill, ond nid caniau alwminiwm.

**Sut gallaf ailgylchu?**

Mae'r sleid hwn yn cynnwys awgrymiadau syml i annog disgyblion i ailgylchu gartref. Dylid annog disgyblion i ofyn i'w rhieni/gofalwyr gymryd rhan a dysgu am eu prosesau ailgylchu gartref.

**Cynllun Gweithredu Ailgylchu**

Pwrpas y dasg hon yw annog disgyblion i helpu i ailgylchu mwy gartref. Bydd pob disgybl yn llenwi cerdyn gweithredu drwy nodi o leiaf un cam. Dyma ambell i enghraifft o gamau addas:

✓ Annog fy rhieni i ailgylchu

✓ Canfod y symbol ailgylchu ar becynnau

✓ Defnyddio pethau y gellir eu hailgylchu

✓ Ailgylchu fy nghaniau diod (neu unrhyw eitem briodol arall)

Dylid annog disgyblion i fynd â'r cardiau hyn gartref gyda nhw i'w rhieni/gofalwyr. Ar ôl wythnos, dylid annog disgyblion i drafod cynnydd eu camau yn y dosbarth.

**Adnoddau pellach**

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ailgylchu ymyl palmant yn Sir y Fflint yma;

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Bins-Recycling-and-Waste/Home.aspx

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am beth sy'n digwydd i eitemau y gellir eu hailgylchu yma;

**GWEITHGAREDD LLEIHAU GWASTRAFF BWYD**

*Defnyddiwch yr adnodd Ymgyrch Gwastraff Bwyd (sleidiau 16-27) i archwilio lleihau gwastraff bwyd gyda dysgwyr.* Gall dysgwyr:

- *Egluro sut y mae gwastraff bwyd yn chwarae rhan mewn newid hinsawdd*
- *Rhoi enghreifftiau o wastraff bwyd na ellir ei fwyta*
- *Disgrifio sut y defnyddir gwastraff bwyd na ellir ei fwyta i gynhyrchu ynni adnewyddadwy*

Gall dysgwyr archwilio'r term cynaliadwy, newid hinsawdd a sut y gall gwastraff bwyd gynhyrchu ynni.

## GWEITHGAREDD YCHWANEGOL NEU ESTYNEDIG:

*Os ydych chi'n teimlo bod gan eich dosbarth ddealltwriaeth dda o ailgylchu, efallai yr hoffech chi ganolbwyntio mwy ar leihau gwastraff bwyd gan ddefnyddio'r Adnodd Ymgyrch Gwastraff Bwyd, gan gynnwys*

*Yr adnodd hwn, Sleidiau 28-38, lle gall dysgwyr greu bwydlen i frwydro yn erbyn gwastraff bwyd*

## PLAY ACTIVITY

**Bingo Ailgylchu:** Ar gyfer y gweithgaredd hwn bydd arnoch angen:

- Detholiad o wrthrychau y gellir eu hailgylchu er mwyn eu rhoi yn y pentyrrau ailgylchu cywir - digon ar gyfer hyd at bedwar tîm.
- Cardiau Bingo Ailgylchu (Addaswch yn ôl yr angen)
- Gofod mawr, mewn neuadd neu yn yr awyr agored

Rhowch yr eitemau i'w hailgylchu mewn pentyrrau ym mhen draw'r gofod a ddefnyddir. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau a dosbarthwch y cardiau Bingo Ailgylchu.

Dywedwch wrth y plant a'r bobl ifanc mai nod y gêm yw bod pob aelod o'r tîm, yn eu tro, yn rhedeg i gasglu eitem ac yn dychwelyd at y tîm, gan roi'r eitem yn y pentwr priodol. Rhaid ailadrodd y cam hwn nes cwblhau llinell ar y cerdyn Bingo.

**leihau, Ailddefnyddio, Ailfeddwl:**

Her i gael y dosbarth i feddwl am ffyrdd creadigol o ailddefnyddio hen ddeunyddiau.

**Canlyniadau Dysgu**

- Defnyddio sgiliau datrys problemau creadigol i lunio ffyrdd newydd o ailddefnyddio hen ddeunyddiau.
- Gwella gwaith tîm a sgiliau cyflwyno'r plant.

**Sut mae'n gweithio**

1) Rhannwch y dosbarth yn grwpiau o tua 5 unigolyn.

2) Rhowch eitem i bob grŵp sydd fel arfer yn cael ei hailgylchu neu ei thaflu (rhai syniadau isod); rhowch y dasg iddynt lunio'r ffyrdd mwyaf creadigol o ailddefnyddio eu heitem a'u troi'n rhywbeth hollol newydd.

a. Bocs grawnfwyd cardbord

b. Potel blastig

c. Can alwminiwm

d. Un hosan

e. Tiwb papur toiled

f. Hen grys-t wedi'i rhwygo

3) Gadewch i bob grŵp gyflwyno eu syniadau a gweld pa un a luniodd y syniadau mwyaf creadigol.